



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Polisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mawrth 2021  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 6 Gorffennaf 2021

# Polisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg

## Trosolwg

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Fel mae teitl y strategaeth yn ei awgrymu, rydyn ni am weld nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi i 1,000,000 erbyn 2050 (o'r nifer a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011, sef 562,000).

Mae'r strategaeth hefyd yn rhagweld y bydd canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, yn cynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a gwneud yn siŵr bod modd iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, mae seilwaith ieithyddol modern a chadarn yn hollbwysig.

I gefnogi hyn, rydyn ni wedi datblygu'r polisi cenedlaethol drafft hwn sy'n cynnig ffyrdd o wella sut mae'r maes yn gweithio i'r defnyddiwr.

## Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **6 Gorffennaf 2021** fan hwyraf.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys set o gwestiynau. Bydden ni'n croesawu'ch ymateb iddyn nhw.

Rydyn ni'n croesawu ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae modd i chi ymateb drwy unrhyw rai o'r dulliau canlynol.

### Ar-lein:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://llyw.cymru/ymgyngoriadau)

### E-bost:

Llenwch y ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost at [UnedaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru](mailto:UnedaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru).

(Cofiwch gynnwys 'Polisi Cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg' yn y llinell pwnc)

### Post:

Llenwch y ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon a'i phostio at:

Is-adran y Gymraeg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**Rhagor o  
wybodaeth a  
dogfennau  
cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon  
mewn print bras, mewn Braille neu mewn  
ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan  
Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://llyw.cymru/ymgyngoriadau)

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Is-adran y Gymraeg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost:

[UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru](mailto:UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru)

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:  
Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ  
e-bost: [Swyddogdiogeludata@llyw.cymru](mailto:Swyddogdiogeludata@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

# Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>2</b>
<b>Beth yw seilwaith ieithyddol?</b>	<b>4</b>
<b>Adran 1 – Crynodeb Gweithredol</b>	<b>5</b>
<b>Adran 2 – Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
<b>Adran 3 – Y meysydd datblygu</b>	<b>9</b>
<b>Adran 4 – Diwedd glo</b>	<b>28</b>

## Rhagair y Gweinidog

Lle ydych chi'n mynd i chwilio os byddwch chi eisiau gwybod beth yw ystyr gair, neu beth yw'r cyfieithiad ohono? Ar un lefel mae'n gwestiwn go syml, ond os ydych chi'n siarad Cymraeg mae'r ateb yn gallu bod yn fwy cymhleth.

Dw i'n gwybod bod llawer iawn o adnoddau ar gael – yn eiriaduron ac yn gronfeydd termau – ond mae hynny'n gallu bod yn rhan o'r broblem. Felly pan fyddaf i'n ysgrifennu araith neu'n helpu fy mhiant gyda'u gwaith cartref, ry'n ni'n aml yn gorfod neidio o un wefan i'r llall i chwilio am air neu derm. Ac wedyn dydy pob adnodd ddim yn cynnig pob ateb, a beth sy'n digwydd os yw'r ateb mewn un man yn wahanol i ateb mewn man arall? Dw i'n gwybod bod rhai'n troi'n gynyddol at bethau fel Bing a Google Translate, ond wrth gwrs dydy'r atebion fyddwn ni'n eu cael ar y gwefannau hynny ddim wastad yn ddibynadwy.

Mae gyda ni lawer o brosiectau o'r ansawdd uchaf yng Nghymru a allai helpu pob un ohonom ni sy'n defnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, mae arbenigwyr wedi bod yn datblygu Geiriadur Prifysgol Cymru ers 1921, ac mae wedi datblygu i fod yn sylfaen ar gyfer yr holl waith arall ar eiriau a thermau yng Nghymru. Mae adnoddau eraill, fel Porth Termau Prifysgol Bangor, a BydTermCymru yn Llywodraeth Cymru, wedi codi'n fwy diweddar mewn ymateb i fylchau yn y ddarpariaeth a'r galw am dermau cyfoes. Mae'r cronfeydd hyn wedi ennill eu plwy ac yn ddylanwadol tu hwnt erbyn hyn. Ond ymatebol yw'r maes o hyd, gyda thermâu'n cael eu comisiynu os bydd galw mawr, a neb yn cadw llygad strategol, lefel uchel ar anghenion y dyfodol.

Mae'r cwestiwn yn codi, felly – a yw hynny'n ddigon da? Pan fyddwn ni'n sôn am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd ohoni, ry'n ni'n sôn am wneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio'r iaith yn ddirwystr. Mae hynny'n golygu dod o hyd i wybodaeth drwy'r Gymraeg, ac am y Gymraeg, heb orfod mynd i chwilio, a heb orfod cymryd camau ychwanegol o'u cymharu â phobl sy'n ceisio gwneud yr un peth yn Saesneg. Yn hynny o beth, mae seilwaith ieithyddol – fel y mae'r enw'n awgrymu – yn hanfodol ar gyfer rhoi'r sylfeini i'r Gymraeg ffynnu at y dyfodol. Hebdo, mae'r Gymraeg yn troi'n *Wild West* heb reolau a heb ffynonellau awdurdodol o wybodaeth (beth yw'r *Wild West* yn Gymraeg eto?!).

Mae tipyn o feddwl a thrafod wedi bod ar ddyfodol y maes ers rhai blynyddoedd, ac yn y ddogfen hon ry'n ni'n ceisio adeiladu ar waith Bwrdd yr Iaith a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r prif fater sydd angen sylw wedi aros yn go gyson: dryswch i'r defnyddiwr o ganlyniad i nifer o ffynonellau terminoleg a geirfa (mae nifer ohonoch wedi dweud nad ydych chi bob amser yn gwybod at ba un i droi; dyw eraill ddim yn ymwybodol bod rhai ohonyn nhw'n bodoli o gwbl), a bod y ffynonellau hynny'n gallu cynnig argymhellion sy'n groes i'w gilydd. Ry'n ni am helpu i newid hynny.

Ar hyn o bryd, does yna'r un corff na thîm yn gyfrifol am gynnal trosolwg o ddarpariaeth seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn ei chyfanrwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer nifer o brosiectau gwahanol, ond nid oes unrhyw gydlynu ffurfiol.

Mae'n bwysig nodi nad y Gymraeg yw'r unig iaith sy'n wynebu heriau yn y maes hwn, ond mae'n deg dweud mai'r bwlch mawr yng Nghymru yw'r elfen o gydlynu gwaith ac adnoddau, er mwyn arwain at ffordd fwy strategol o ledaenu a chyhoeddi ffrwyth y gwaith. O wneud hynny'n iawn, ry'n ni'n hyderus bod potensial i wella'r ddarpariaeth i bawb sydd am ddefnyddio'r Gymraeg.

Dros y tudalennau nesaf, ry'n ni'n cyflwyno cefndir bras i'r gwahanol feysydd sy'n rhan o seilwaith ieithyddol y Gymraeg (Geiriadur, Terminoleg, Corpora, Safoni), gan amlinellu cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen.

Mae'n bwysig iawn pwysleisio mai nod y cynigion yn y ddogfen hon yw adeiladu ar seiliau sydd wedi eu gosod yn barod, nid dechrau o'r dechrau. Ffaith sy'n pwysleisio pa mor ddwfn y mae gwreiddiau'r gwaith yn rhedeg yng Nghymru yw y bydd Geiriadur Prifysgol Cymru yn dathlu ei ganmlwyddiant eleni. Mae hyn yn dangos nid yn unig faint o waith sydd wedi bod ar yr adnodd hollbwysig hwn, ond hefyd pa mor bwysig yw sicrhau bo'r gwaith hwnnw'n gallu parhau'n ddi-dor. Bydd y canmlwyddiant felly'n gyfle i edrych yn ôl, i ddathlu a llongyfarch, ac i edrych tua'r dyfodol.

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru, fel ag yn achos y maes yn gyffredinol, wedi addasu i blatfformau digidol newydd, a dw i'n siŵr y bydd angen parhau i addasu dros y blynyddoedd nesaf. Yn hynny o beth, mae nifer o'n cynigion yn clymu i mewn gyda'r *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg*, a'n nod yw darparu, yn rhad ac am ddim, fersiynau digidol o adnoddau awdurdodol ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw ffordd. Wrth gamu ymlaen, byddwn ni'n rhoi pwyslais cryfach fyth ar gydweithredu ac ar fathau newydd o waith partneriaeth, a fydd yn cynnwys yr holl sefydliadau sydd â rhan i'w chwarae wrth gynllunio gwell dyfodol ar gyfer yr iaith.

Ry'n ni eisoes wedi sefydlu Panel Safoni'r Gymraeg i ddechrau cysoni sut y caiff rhai geiriau eu sillafu. Mae hynny'n ddechrau da ar waith sydd dirfawr angen ailgydio ynddo. Nod y cynigion hyn yw hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn helpu gyda'r daith tuag at filiwn o siaradwyr. Bydd yr hyn sy'n dod nesaf yn cael ei lywio gan eich ymatebion chi i'r ymgynghoriad hwn.

**Eluned Morgan AS**

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

## Beth yw seilwaith ieithyddol?

Pan fyddwn ni'n sôn am 'seilwaith ieithyddol', rydyn ni'n sôn am y pethau sy'n ein helpu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Y brics a'r mortar fel geiriaduron ac adnoddau terminoleg, a'r holl waith ymchwil a safoni sy'n mynd ymlaen er mwyn galluogi'r adnoddau hyn i dyfu a datblygu. Y dyddiau hyn, mae nifer fawr ohonon ni'n defnyddio'r rhain ar-lein.

### Geirfa

#### **Corpws** (lluosog: corpora)

Casgliad mawr o ddata ieithyddol (e.e. geiriau, termau, ymadroddion) wedi ei dynnu ynghyd gan ddilyn egwyddorion penodol. Mae corpora'n cael eu defnyddio i greu adnoddau technolegol a digidol ac i wneud ymchwil ieithyddol er mwyn datblygu cronfeydd termau neu eiriaduron. Gallan nhw fod yn seiliedig ar recordiadau sain, testunau ysgrifenedig neu ystumiau dynol (h.y. iaith arwyddion).

#### **Geiriadur**

Mae geiriaduron traddodiadol fel arfer yn disgrifio'r iaith ac yn cofnodi'i geirfa. Maen nhw hefyd yn cynnig cyfystyron, ac nid yw'r golygyddion yn deddfu ynghylch pa eiriau y dylid eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn wahanol i restrau terminoleg, lle mae term neu ymadrodd yn cyfateb i un cysyniad yn unig.

#### **Term**

Mae termau'n eiriau neu'n ymadroddion sydd ag ystyron penodol mewn cyd-destunau penodol. Gall yr ystyron hyn fod yn wahanol i'r ystyr a roddir i'r geiriau hyn mewn iaith bob dydd.

#### **Terminoleg**

Casgliad o dermau sy'n perthyn i feysydd pwnc penodol (e.e. iechyd, addysg). Mae terminoleg yn nodi pa dermau sy'n safonol mewn cyd-destun penodol e.e. wrth ysgrifennu ar gyfer sector neu i gwsmer penodol. Mae gwaith ar derminoleg yn wahanol i waith ar eiriadur, am ei fod yn golygu astudio cysyniadau, systemau cysyniadol a'u labeli, yn hytrach nag astudio geiriau a'u hystyron fel y gwneir i lunio geiriadur.



## Adran 1 – Crynodeb gweithredol

Yn ystod haf 2017, fe wnaethon ni gyhoeddi strategaeth o'r enw [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) a oedd yn cyflwyno cynllun ar gyfer dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn. Roedd y strategaeth yn golygu newid sylweddol i bolisi iaith Llywodraeth Cymru.

Yn y strategaeth honno fe wnaethon ni nodi, er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr, bod angen i fwy o bobl siarad Cymraeg a mwy o bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Ond hefyd fe ddywedon ni bod angen creu amodau ffafriol – pethau fel adnoddau ieithyddol, economi ffyniannus, neu sicrhau cefnogaeth pobl i'r iaith. Mae adnoddau fel geiriaduron, terminolegau a corpora (pethau rydyn ni'n cyfeirio atyn nhw ar y cyd yma fel 'seilwaith ieithyddol') yn rhan bwysig iawn o hyn.

Gan fod cynyddu nifer y siaradwyr yn golygu cynnwys pawb, o bob cefndir, rydyn ni am weld y gwahanol elfennau hyn yn cael eu cydlynu'n effeithiol. Rydyn ni am wneud hyn fel bod pawb yn gallu eu defnyddio'n hawdd – yn siaradwyr newydd, yn blant ysgol a'u rhieni, yn fyfyrwyr, yn bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gyfieithwyr proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol ac iechyd, cyfreithwyr, yr heddlu a'r gwasanaethau brys, newyddiadurwyr, athrawon, a llawer mwy.

### Ein blaenoriaethau

Gyda chymaint o adnoddau gwych ar gael i bobl sydd am ddefnyddio'r Gymraeg, mae'n gallu bod yn rhwystredig pan fydd pobl yn dweud nad ydyn nhw'n gwybod ble i droi i chwilio am air neu derm. Y gwir yw eu bod nhw ar wasgar (rhai yn ddigidol, a rhai ar bapur), a phobl ddim yn gwybod bob amser ble i droi am atebion nac arweiniad. Rydyn ni felly am greu trefn newydd a fydd yn gyfrifol am gydlynu'r prif adnoddau a rhoi mynediad atynt mewn un man, fel bod pawb yn gallu cael gafael ar atebion yn hawdd. Rydyn ni'n cynnig gwneud hynny drwy greu uned newydd yn Llywodraeth Cymru i wneud i'r gwahanol elfennau weithio gyda'i gilydd yn well. Bydd yr uned hefyd yn gyfrifol am redeg gwefan hawdd i'w chyrraedd, hawdd i'w defnyddio i bawb sydd am ddefnyddio'r Gymraeg – gwefan sy'n cynnig mynediad hwylus at adnoddau fel y prif eiriaduron a chronfeydd termau, yn ogystal ag adnoddau fel corpora, i gyd mewn un man.

Yng ngweddill y ddogfen hon, rydyn ni'n amlinellu ein cynigion o dan y chwe maes canlynol:

1. **Geiriaduron**
2. **Terminoleg**
3. **Corpora**
4. **Safoni** (e.e. orgraff/sillafu, enwau lleoedd, termau)
5. **Creu un rhyngwyneb – sicrhau chwilio hawdd ar draws pob adnodd**
6. **Creu uned newydd i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg**

Ein nod yw gwneud i'r holl elfennau rydyn ni wedi eu grwpio o dan y teitl 'seilwaith ieithyddol' weithio'n llyfn gyda'i gilydd, er mwyn ei gwneud yn haws i fwy o bobl nag erioed ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

## Adran 2 – Cyflwyniad

### Pam rhoi'r cyfrifoldeb am gydlynu hyn i gyd mewn un lle?

**Ei gwneud yn haws i'r defnyddiwr:** Mae pobl sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yn mynegi nifer o bryderon. Un ohonynt yw eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i adnoddau. Un arall yw bod dryswch yn sgil nifer y ffynonellau terminoleg a geiriadura sydd ar gael, ac anhawster gwybod p'un sy'n cael blaenoriaeth. Er bod y ddau beth hyn yn gwrth-ddweud ei gilydd i raddau, maent yn awgrymu bod aneglurder ynghylch lle i droi am atebion i gwestiynau ieithyddol. Byddai creu uned i fod yn gyfrifol am wneud i'r gwahanol adnoddau weithio gyda'i gilydd yn well, a chynnig mynediad atynt drwy un rhyngwyneb, yn ffordd o fynd i'r afael â hynny.

Byddai sicrhau bod rhagor o gydlynu adnoddau hefyd yn arwain at fwy o eglurder i'r defnyddiwr, yn arbennig pe byddai'r holl gynnyrch (boed yn eiriau neu'n dermau, yn gorpora neu'n gyngor ieithyddol) yn cael eu cyflwyno drwy un porth chwilio, a allai gydag amser gael ei deilwra at anghenion y defnyddiwr.

**Creu un profiad i'r defnyddiwr:** Yn achos y Saesneg, pan fo siaradwyr cyffredin a dysgwyr yn chwilio am adnoddau, mae nifer ohonynt nhw'n troi at yr un lle. Er enghraifft, os ydych yn chwilio am ystyr neu sillafiad gair, mae modd troi at eiriadur fel yr *Oxford English Dictionary* a bod yn hyderus ei fod yn cynnig atebion awdurdodol am ystyr a tharddiad gair, neu'r *Cambridge Dictionary* os yn chwilio am esboniad mwy ymarferol ac enghreifftiau o sut i ddefnyddio'r gair mewn brawddeg. Mae hyn yn creu undod profiad lle mae sefydliad cenedlaethol, hanesyddol yn ateb y galw, ac yn rhoi'r teimlad i'r defnyddwyr eu bod oll yn tynnu o'r un ffynhonnell safonol – mae hyn yn ei dro yn rhoi'r hyder iddyn nhw eu bod yn defnyddio gair addas.

Mae gan nifer o wledydd ac ieithoedd gyrff swyddogol neu academiâu ar wahanol fodolau sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith yn y maes hwn, ac sy'n ymddwyn fel man cychwyn amlwg i'r cyhoedd wrth holi cwestiynau ieithyddol. Yn achos y Gymraeg, gall y profiad ddibynnu ar wybodaeth y defnyddiwr o'r ffynonellau. Er enghraifft, bydd cyfieithydd proffesiynol yn gwybod pa ffynhonnell o blith nifer i'w dewis; bydd gan rai siaradwyr Cymraeg rywfaint o wybodaeth, ond weithiau'n drysu neu ddim yn ymwybodol o ffynhonnell addas; ac yn aml ni fydd gan siaradwyr newydd neu bobl nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg syniad ble i ddechrau.

Rydyn ni'n credu bod pawb, boed yn siaradwyr rhugl neu'n siaradwyr newydd, oll ar yr un daith gyda'r Gymraeg, a bod modd i ni gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr drwy weithio gyda'n gilydd. Felly, mae'n hynod bwysig cynnig un profiad cyson i bawb pan ddaw at adnoddau seilwaith. Nod yr uned a gynigir uchod, felly, fydd gwneud hynny drwy gomisiynu a chydlynu adnoddau, a'u marchnata mewn ffordd llawer mwy effeithiol er mwyn rhoi'r hyder i ddefnyddwyr bod yr atebion y maent yn eu cael yn rhai awdurdodol, gan ei gwneud yn haws iddyn nhw ddefnyddio'r iaith.

**Osgoi dyblygu ac osgoi bylchau:** Mae'r dyblygu rydyn ni'n sôn amdano uchod nid yn unig yn gallu achosi dryswch, ond hefyd yn gallu arwain at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau a sgiliau arbenigol prin.

Ar hyn o bryd, mae yna nifer o eiriaduron a chronfeydd termau gwahanol, gyda gwahanol unigolion a sefydliadau yn eu cynhyrchu, heb lawer o gydlynu strategol rhyngddynt. Mae hyn yn gallu arwain at ffynonellau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd, a darpariaeth anghyson neu

ddim o gwbl mewn rhai eraill. Credwn y byddai sefydlu trefn newydd i gydlynu'r adnoddau hyn yn well yn golygu bod llai o ddyblygu, mwy o gysondeb, ac felly llai o ddryswch i'r defnyddiwr. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cyllid ar gyfer nifer o brosiectau geiriadura a therminoleg, felly gwelwn fod yma gyfle iddi chwarae rhan gydlynol er mwyn datblygu'r maes ymhellach.

**Sganiau'r gorwel:** Ar y naill law mae yna ddyblygu ffynonellau, ac ar y llall ddiffyg cynllunio strategol o ran beth fydd yr anghenion dros y cyfnod sydd i ddod. Er enghraifft, os bydd yn dod i'r amlwg bod gwaith yn cael ei gynllunio mewn maes polisi newydd, neu fod diwydiant penodol yn dod i Gymru a bod angen termau Cymraeg ar y gweithlu, pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod termau priodol ar gael mewn pryd? Rydyn ni wedi gweld rhywbeth tebyg yn digwydd yn ddiweddar gyda therminoleg ym maes cydraddoldeb o ran hil ac ethnigrwydd, wrth i weithredu ledled y byd dynnu sylw at fylchau yn y derminoleg yn Gymraeg. Diffyg systemig yw hyn, gan nad oes yna un corff yng Nghymru sy'n gyfrifol am gadw golwg strategol ar faes terminoleg y Gymraeg. Yn achos y ddwy brif ganolfan sy'n safoni termau yng Nghymru, ymateb i gynlluniau a defnydd termau gan Weinidogion Cymru y mae Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru drwy wefan TermCymru, a datblygu geiriaduron termau newydd ar gyfer Y Porth Termau, ar y cyd â chyrrff sy'n comisiynu'r gwaith, y mae'r Uned Termau a Thechnolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor. Dyna'u gwaith nhw, ac maen nhw'n gwneud hynny i safon uchel iawn.

Rydyn ni'n cynnig bod angen i un corff fod yn gyfrifol am sganiau'r gorwel am ddatblygiadau polisi a phrosiectau cyhoeddus mawr sydd i ddod, ac am sicrhau bod arbenigwyr priodol yn gyfrifol am gynhyrchu a safoni'r derminoleg angenrheidiol yn rhagweithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos termau technegol, er mwyn sicrhau bod y term yn gysyniadol gywir ac yn addas at ddefnydd arbenigol, boed ym myd addysg, gwyddoniaeth, meddygaeth neu unrhyw faes arall.

Yn ogystal ag edrych ar y darlun hirdymor a chynllunio ar ei gyfer, mae hefyd angen trefn i helpu gyda termau uchel eu proffil sy'n codi'n ddirybudd, ond bod brys ar eu cyfer. Rydyn ni felly am leihau nifer y sefyllfaoedd lle mae unigolion a sefydliadau'n gorfod bathu termau ar frys heb unrhyw ymgynghori nac arweiniad ehangach. Mae hynny'n gallu arwain at ddyblygu wrth i nifer o gyrff neu asiantaethau gwahanol, oherwydd y brys, fynd ati ar eu liwt eu hunain, gan arwain yn aml at greu sawl term am yr un cysyniad. Drwy helpu i gydlynu terminoleg yn yr achosion hyn, ein nod yw arwain at fwy o gysondeb a'i gwneud hi'n haws i'r defnyddiwr adnabod, deall a dechrau defnyddio termau newydd.

**Cydlynu er budd y maes cyfan:** Er bod rhywfaint o gydweithio rhwng sefydliadau a thimau sy'n gyfrifol am elfennau o seilwaith ieithyddol y Gymraeg, does dim strwythur i sicrhau bod datblygiadau a gwersi a ddysgwyd mewn un maes yn cael eu rhannu â meysydd eraill fel mater o drefn.

Mae cyllid cyhoeddus yn ariannu cyfran helaeth o'r gwaith sy'n digwydd yn y maes ar hyn o bryd, felly byddai sefydlu trefn i'w gydlynu'n well yn ffordd o sicrhau gwell gwerth am arian – byddai'n lleihau dyblygu ac yn sicrhau bo'r cyllid, yr adnoddau a'r arbenigedd yn cael eu defnyddio lle mae eu hangen fwyaf. Byddai sicrhau buddsoddiad digonol a sefydlog i'r maes, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod gwaith sydd eisoes wedi'i ariannu yn parhau'n gyfoes ac yn werthfawr, yn rhan ganolog o hyn.

Yn y tymor byr, mae'n bosib y bydd prinder unigolion sydd â'r arbenigedd angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith yn her – hyn a hyn o bobl yng Nghymru sydd ag arbenigedd ym meysydd geiriadura a therminoleg, er enghraifft. Bydd yn gyfrifoldeb i'r uned, felly, gynllunio

am y tymor hwy, gan archwilio dulliau o feithrin arbenigedd ac ehangu'r pwll o arbenigwyr sy'n gallu ymgymryd â'r gwaith.

Byddai'n fuddiol i'r uned newydd hefyd weithio'n agos gyda gwasanaethau cyfieithu o bob math, yn ogystal â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac arweinwyr strategaethau technolegol, er mwyn gwneud yn siŵr bod cysylltiad rhwng y meysydd hyn, fel bod unrhyw ddatblygiadau mewn un maes yn ystyried y lleill a bod pob un yn ei dro yn elwa.

## Adran 3 – Y meysydd datblygu

Yn yr adran hon, rydyn ni'n cynnig chwe maes i'w datblygu er mwyn cryfhau seilwaith ieithyddol y Gymraeg a'i gydlynyn well. Rydyn ni'n credu y bydd gwneud hyn yn helpu i gynyddu defnydd o'r iaith a chynorthwyo yn yr ymdrech i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### Maes datblygu 1: Geiriaduron

Mae "Beth yw'r gair Cymraeg am...?" yn gwestiwn rydyn ni'n ei glywed dro ar ôl tro. Ar y radio neu'r teledu, yn yr ystafell ddosbarth, ar y cyfryngau cymdeithasol neu wrth siarad yn y swyddfa, mae cwestiynau am eiriau Cymraeg yn gyffredin iawn. Ac yn aml, heb i ni sylweddoli, mae ateb i'n cwestiwn eisoes yn bodoli mewn geiriadur, ac fel arfer o fewn cyrraedd hawdd ar-lein ac ar apiau.

Mae'n hawdd cymryd geiriaduron yn ganiataol. Maen nhw'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod gwybodaeth am ddiffiniad geiriau, a chyfieithiadau ohonyn nhw, ar gael i'w defnyddwyr. Yn y byd modern, gall gwahanol fathau o eiriaduron gofnodi defnydd hanesyddol yr iaith, adlewyrchu defnydd iaith pob dydd, neu ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol (fel siaradwyr newydd).

Byddai diogelu dyfodol geiriaduron o'r fath, a gwneud yn siŵr eu bod ar gael yn hawdd i bawb, yn golygu bod mwy o bobl y gallu defnyddio'r iaith yn ddirwystr. Mae geiriaduron hefyd yn cynnig sylfaen gref ar gyfer datblygu bob math o adnoddau ieithyddol defnyddiol eraill ar gyfer pawb sydd am ddefnyddio'r Gymraeg.

### Pa adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd?

Mae sawl geiriadur Cymraeg ar gael, ond yma rydyn ni'n canolbwyntio ar y geiriaduron hynny sydd ar gael ar-lein yn ddi-dâl.

#### ***Geiriadur Prifysgol Cymru*** ([gpc.cymru](http://gpc.cymru))

Prif eiriadur hanesyddol safonol y Gymraeg, a gafodd ei baratoi'n wreiddiol rhwng 1921 a 2002 gan Brifysgol Cymru ac sy'n cael ei ddiweddarau o hyd. Mae'n debyg o ran statws i'r *Oxford English Dictionary* yn y Saesneg. Dyma'r sylfaen yr holl gyfeirlyfrau eraill ar gyfer y Gymraeg e.e. geiriaduron, cronfeydd terminoleg, llyfrau gramadeg, penderfyniadau ar yr orgraff (h.y. sut mae geiriau'n cael eu sillafu) ac ati. Mae'r adnodd hwn hefyd ar gael ar ffurf ap.

#### ***Geiriadur yr Academi*** ([www.geiriaduracademi.org](http://www.geiriaduracademi.org))

Geiriadur Saesneg-Cymraeg, wedi ei olygu gan Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones. Cyn ei gyhoeddi, doedd dim geiriadur cynhwysfawr addas at ddefnydd y proffesiwn cyfieithu. Mae hefyd wedi bod yn adnodd hynod bwysig er mwyn hwyluso gweithio yn Gymraeg mewn sefydliadau dwyieithog, ac ym myd addysg. Bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt a Chomisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am brosiect i drosi'r geiriadur i fersiwn electronig a'i gyhoeddi ar-lein, ond ni chafodd cynnwys y cofnodion eu diwygio fel rhan o'r prosiect hwn. Mae'r cynnwys wedi bod yn segur i bob pwrpas ers ail argraffiad y fersiwn print yn 2003 – cyfnod o newid cyflym i'r Gymraeg – ac mae nifer sylweddol o eiriau mwy diweddar felly nad ydynt wedi eu cynnwys ynddo, neu sydd angen eu diweddarau.

#### ***Geiriadur y Drindod Dewi Sant*** ([geiriadur.uwtsd.ac.uk/](http://geiriadur.uwtsd.ac.uk/))

Geiriadur Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg cynhwysfawr a gafodd ei baratoi gan Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan.

### **Geiriadur Prifysgol Bangor** ([geiriadur.bangor.ac.uk](http://geiriadur.bangor.ac.uk))

Geiriadur Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg yr Uned Termau a Thechnolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor. Mae'n arbennig o ddefnyddiol i siaradwyr newydd. Ceir cysylltiadau i eiriaduron eraill ac i adnoddau termau technegol. Mae hefyd ar gael yn ddi-dâl yn yr *ap Geiriaduron*.

### **Y Gweiadur** ([www.gweiadur.com/cy/Pawb](http://www.gweiadur.com/cy/Pawb))

Adnodd Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg sydd wedi ei ddatblygu gan D. Geraint Lewis a Nudd Lewis sydd mewn fersiwn beta ar hyn o bryd. Gellir ei ddefnyddio'n ddi-dâl, ond mae angen cofrestru i'w ddefnyddio (mae cofrestradau ar gau ar hyn o bryd).

Rhaid cydnabod hefyd bod llawer o bobl yn defnyddio adnoddau fel Bing, Google Translate a Microsoft Translator i ddod o hyd i air (neu derm). Er bo'r rhain yn adnoddau defnyddiol, nid ydyn nhw bob amser yn cynnig atebion dibynadwy.

### **Amcanion:**

Sicrhau cysondeb rhwng gwahanol eiriaduron, lle mae hynny'n briodol, drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael eu diweddarau ar sail yr un ymchwil fel eu bod yn cyfoethogi ei gilydd.

Sicrhau bod pawb yn gwybod ble i droi am ddiffiniad o air Cymraeg neu am gyfieithiad o air.

Sicrhau bod yr adnoddau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu diweddarau'n gyson, fel eu bod yn adlewyrchu'r Gymraeg fel iaith fyw.

Sicrhau bod geiriadur Cymraeg > Saesneg cyfoes, sy'n cael ei ddiweddarau'n gyson, ar gael i bawb yn ddigidol.

Gwneud y mwyaf o'r arbenigedd sy'n bodoli yn y maes, a'i ddatblygu ymhellach.

### **Sut:**

- Tynnu rhai o brif eiriaduron y Gymraeg ynghyd mewn un lle (lle bo hynny'n briodol), er mwyn sicrhau gofal golygyddol hirdymor iddynt a gwneud y mwyaf o'r arbenigedd prin sy'n bodoli yn y maes. Byddai hyn hefyd yn cynnig gwerth am arian.
- Sicrhau bod adnoddau geiriadurol cyson ar gael sy'n ategu ei gilydd, gan sicrhau darpariaeth safonol a chynhwysfawr i ddefnyddwyr y Gymraeg.
- Fel rhan o hynny, cymryd camau i sicrhau bod y gwaith o ddiwygio a diweddarau adnodd hollbwysig Geiriadur yr Academi yn ailddechrau.
- Blaenoriaethu datblygu a chynnal geiriadur ar-lein Cymraeg > Saesneg safonol a chyfoes, i lenwi'r bwlch am eiriadur o'r fath sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at y prif adnoddau geiriadurol drwy wefan ganolog (gweler Maes 5 isod), gan farchnata a chodi ymwybyddiaeth ohoni fel bod pobl yn gwybod ble i droi pan fydd y cwestiwn "Beth yw'r gair Cymraeg am...?" yn codi ei ben.
- Gwella'r hyfforddiant sydd ar gael i'r rheini sydd am fod yn eiriadurwyr, fel bod y pwll o bobl sy'n gallu gwneud y gwaith yn cynyddu.

## Maes datblygu 2: Terminoleg

Yn yr un ffordd â'r geiriau a geir mewn geiriaduron, rydyn ni hefyd yn dibynnu ar dermau yn ein bywydau pob dydd – p'un a ydyn ni'n sylweddoli hynny neu beidio.

Mae termau'n cael eu defnyddio i ddynodi cysyniadau penodol mewn meysydd penodol ac, yn wahanol i eiriau yn yr iaith gyffredinol, rhaid cael prosesau safoni er mwyn cytuno ar un term ar gyfer pob cysyniad.

Allwn ni ddim defnyddio cyfrifiadur, er enghraifft, heb gyffwrdd *llygoden* a *bysellfwrdd*, neu *fewnbynnu cyfrinair* – mae'r rhain i gyd yn dermau sy'n ymwneud â'r maes technoleg. Ac o gasglu termau sy'n berthnasol i'r un maes ynghyd mewn un lle, rydyn ni'n creu rhestr o dermau, neu mewn gair arall, *terminoleg*.

Mae *llygoden* yn golygu mwy nag un peth, ond o'i gynnwys mewn terminoleg ar gyfer y maes technoleg, rydyn ni'n gwybod ei fod yn cyfeirio at y teclyn sy'n ein helpu ni i weithio ar gyfrifiadur, yn hytrach na mamal bach blewog â chynffon hir. Yn hynny o beth, mae geiriaduron terminoleg yn gwbl wahanol i eiriaduron ieithyddol disgrifiadol, fel y rhai rydyn ni'n sôn amdanynt ym maes 1 uchod. Ond maen nhw'r un mor bwysig. Yn wir mae'n hollbwysig bod ffynonellau safonol o derminoleg yn bodoli sy'n ei gwneud yn haws defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys mewn meysydd arbenigol fel technoleg, y gyfraith, maes iechyd, a'r byd addysg.

Mae'r gwaith o safoni termau yn Gymraeg wedi bod yn digwydd ers canol yr ugeinfed ganrif (e.e. *Termau Technegol*, Gwasg Prifysgol Cymru, 1950). Ym maes addysg, dechreuodd y gwaith o safoni terminoleg ym 1993 pan ddyfarnodd yr Awdurdod Cwricwlwm Ysgolion gontract i Brifysgol Bangor safoni terminoleg y Gymraeg ar gyfer ysgolion Cymru. Arweiniodd hynny at greu *Y Termiadur Addysg*, sy'n parhau i fod yn adnodd pwysig dros ben. Ond dydy'r angen am greu terminoleg byth yn mynd i ffwrdd – yn ddiweddar, er enghraifft, rydyn ni wedi gweld yr angen i ddiweddarau a thynnu ynghyd dermau yng nghyswllt cydraddoldeb ym maes hil ac ethnigrwydd oherwydd y cynnydd sylweddol mewn sylw i'r maes hwn.

Mae geiriaduron terminoleg yn seiliedig ar gysyniadau yn hytrach na geiriau, ac yn dilyn proses safoni a ragnodir yn nheulu ISO/TC37 o safonau rhyngwladol. Gall hynny olygu ei bod yn cymryd ychydig o amser i dermau gael eu safoni a'u cynnwys mewn adnoddau terminoleg. Mae'n bwysig iawn, felly, bod gwaith ar dermau'n cael ei gydlynu a'i gynllunio'n drylwyr er mwyn gwneud yn siŵr nad oes bylchau amlwg yn y ddarpariaeth.

### Rydym ni'n ceisio datrys dau brif fater mewn perthynas â therminoleg

#### **1 – Bod cymaint o adnoddau – rhai wedi eu safoni, rhai heb – yn golygu nad yw pobl bob amser yn gwybod pa rai i'w defnyddio, ac weithiau bod anghysondeb rhwng adnoddau**

Er bod cymaint o adnoddau terminoleg ar-lein o'r ansawdd uchaf ar gael ar gyfer y Gymraeg – boed yn gronfeydd termau a gynhyrchir gan arbenigwyr terminoleg, neu'n rhestrau ar-lein a gedwir er hwylustod gan wahanol gyrff cyhoeddus – mae'n amlwg nad yw pobl bob amser yn gwybod ble i droi am derm, na pha derm yw'r un gorau at eu dibenion nhw.

Am fod safoni termau yn digwydd mewn nifer o gyd-destunau, gan unigolion a sefydliadau, er mwyn mynegi cysyniad technegol, mae hynny'n gallu arwain at sefyllfa lle mae nifer o wahanol ffynonellau'n cynnig termau, rhai ohonynt wedi eu safoni, ac eraill heb eu safoni. I'r rhai sy'n gweithio mewn maes penodol, gall fod yn amlwg pa ffynhonnell sydd fwyaf dibynadwy, a pha derm i'w ddefnyddio. Ond beth am y gweddill ohonom?

Ein nod yw gwneud yn siŵr y gall pawb ddefnyddio'r Gymraeg yn hawdd ac yn ddirwysr, ac mae terminoleg yn rhan ganolog o'r darlun hwnnw. Os nad yw pobl yn gwybod ble i droi, neu os yw'r canlyniadau mewn gwahanol ffynonellau'n anghyson, mae hynny'n creu rhywysr, ac yn golygu nad oes gan bobl hyder ym mha derm i'w ddefnyddio.

## **2 – Bod angen cydlynu pa dermau technegol sy'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu safoni, a threfn well i fathu termau newydd ar frys, a'u prif-ffrydio**

Yn fras, gellir rhannu'r gwaith o safoni termau'n ddau weithgaredd gwahanol:

1. **llenwi bylchau yng ngeirfa gyffredinol yr iaith**, er enghraifft fel bod geiriau a thermau ar gael ar gyfer cysyniadau newydd wrth iddyn nhw godi.
2. **safoni pecynnau o dermau technegol**, fel bod y termau hynny'n addas at ddefnydd arbenigol mewn meysydd penodol e.e. addysg, gwyddoniaeth, meddygaeth, hylendid bwyd ac yn y blaen.

**Llenwi bylchau yng ngeirfa gyffredinol yr iaith:** o bryd i'w gilydd, bydd angen creu term newydd ar frys, oherwydd rhywbeth sydd wedi digwydd yn y newyddion, er enghraifft, neu am fod angen rhoi gwybodaeth newydd i'r cyhoedd. Yng Nghymru, mae hyn fel arfer yn digwydd er mwyn ceisio cyfleu yn Gymraeg gysyniadau sy'n cael eu mynegi'n gyntaf yn Saesneg. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys termau yng nghyswllt Brexit, termau meddygol oherwydd y coronafeirws, a thermau cydraddoldeb hiliol.

Dyma un senario – yn ddiweddar, oherwydd pandemig y coronafeirws, cafwyd cyfnod clo yng Nghymru a oedd yn cael ei alw yn Saesneg yn *firebreak*. Ond dwylo i fyny beth oedd y term Cymraeg? Cyfieithiad swyddogol Llywodraeth Cymru, a gafodd sylw drwy wefan uchel ei pharch BydTermCymru, oedd *cyfnod atal byr*. Serch hynny, roedd y BBC yn defnyddio (ymysg cynigion eraill) *cyfnod clo bach* neu *clo byr*, a nifer o wefannau a chyfryngau'n defnyddio *toriad tân*, felly hefyd Weinidogion Cymru eu hunain yn aml wrth siarad â'r wasg. Mae'r rhain i gyd yn ddilys ynddyn nhw'u hunain, wrth gwrs. Ond ar fater lle mae eglurder yn hollbwysig, byddai sicrhau rhywfaint o gysondeb yn fanteisiol ac yn cynyddu hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol / newydd (wedi'r cyfan, *firebreak* oedd y term yr oedd pawb yn ei ddefnyddio yn Saesneg, a phawb yn gwybod at beth yr oedd y term yn cyfeirio).

Am fod iaith yn esblygu drwy'r amser, mae hyn yn waith parhaus. Serch hynny, oherwydd diffyg adnoddau o bosibl, does dim llawer o gynllunio er mwyn llenwi bylchau wedi digwydd yng Nghymru hyd yn hyn, nac er mwyn gweld sut mae'r termau newydd sy'n codi o ganlyniad i hyn yn gwreiddio yn yr iaith.

**Safoni pecynnau o dermau technegol:** adegau eraill, nid oes cymaint o frys am dermau, ond eto mae'n amlwg y bydd angen pecyn o dermau newydd yn y dyfodol agos e.e. os bydd y Llywodraeth yn bwriadu datblygu polisi newydd mewn maes penodol, os bydd maes penodol yn cael rhagor o sylw cyhoeddus (e.e. cydraddoldeb o ran hil ac ethnigrwydd), neu os bydd diwydiant newydd yn dod i Gymru nad oes termau Cymraeg yn bodoli ar ei gyfer. Ond gyda dau brosiect mawr yn creu termau (Uned Termau a Thechnolegau Iaith Prifysgol Bangor, a Byd Term Cymru yng Ngwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru), pwy sy'n



arwain ar gynllunio'r ddarpariaeth pan fydd cyfres o dermau newydd yn codi, ac yn penderfynu pa becynnau terminoleg i'w blaenoriaethu?

**Yn y ddau achos uchod:** os bydd mwy nag un ffynhonnell yn bathu term newydd gwahanol am yr un peth, p'un sy'n cael blaenoriaeth? Sut mae'r defnyddiwr i fod i ddeall bod mwy nag un term Cymraeg yn aml yn cyfeirio at un term yn unig yn Saesneg? P'un y dylid ei ddefnyddio?

### **Pa adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd?**

Mae sawl casgliad o dermau Cymraeg ar gael – isod rydyn ni'n rhestru'r prif ffynonellau:

#### ***Y Porth Termau Cenedlaethol*** ([termau.org/](http://termau.org/))

Cafodd y gronfa dermau hon ei datblygu gan Uned Termau a Thechnolegau Iaith Prifysgol Bangor. Mae'r Porth Termau Cenedlaethol yn cynnwys casgliadau o derminoleg arbenigol sydd wedi cael eu safoni mewn cydweithrediad â nifer o gyrff allanol, er enghraifft:

- Y Termiadur Addysg
- Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Termau Gofal Cymdeithasol Cymru
- Termau Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru
- Geiriaduron Natur Cymdeithas Edward Llwyd
- Termau yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Gellir cael mynediad at rai o'r adnoddau hyn drwy adnodd Cysgeir (sy'n rhan o'r pecyn meddalwedd Cysgliad) a'r Ap Geiriaduron hefyd.

#### ***TermCymru*** ([llyw.cymru/btc](http://llyw.cymru/btc))

Casgliad chwiliadwy o'r termau y bydd cyfieithwyr Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth eu gwaith bob dydd. Mae'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ac mae'n tyfu'n gronfa helaeth o dermau safonol a chyfoes sy'n cofnodi'r termau a ddefnyddir yng ngwaith y Llywodraeth. Yn ogystal â'i chwilio, gallwch ei lawrlwytho yn ei gyfanrwydd dan drwydded agored, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i chi ei ddefnyddio na dim ond ei gynnig ar ffurf chwiliadwy.

#### ***Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*** ([colegcymraeg.ac.uk/cy/adnoddau/termau](http://colegcymraeg.ac.uk/cy/adnoddau/termau))

Cronfa o dermau ar gyfer maes Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg. Mae'n adnodd ar-lein i fyfyrwyr a staff i hwyluso'r broses o astudio, addysgu ac ymchwilio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Prifysgol. Gellir chwilio'r gronfa hon hefyd drwy'r Porth Termau uchod.

#### **Y Termiadur Addysg** ([www.termiaduraddysg.org](http://www.termiaduraddysg.org))

Gwefan a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac a gafodd ei datblygu gan Uned Termau a Thechnolegau Iaith Prifysgol Bangor, ar gyfer darparu termau safonol yn y byd addysg. Rhain yw'r termau i'w defnyddio mewn arholiadau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg ac mewn adnoddau o bob math ar gyfer athrawon a disgyblion. Gellir chwilio'r gronfa hon hefyd drwy'r Porth Termau uchod.

**Casgliadau eraill:** Mae amrywiol gyrff eraill hefyd yn llunio ac yn cadw eu rhestrau termau eu hunain, gan fynd ati weithiau i'w cyhoeddi ar-lein. Ond anaml y bydd nifer o'r rhestrau hyn wedi eu safoni drwy brosesau cydnabyddedig a'u bwydo i'r adnoddau ehangach uchod.

Yn absenoldeb ffynonellau eraill, serch hynny, gallant fod yn ddefnyddiol iawn – mae enghreifftiau'n cynnwys rhestrau a gedwir gan Stonewall ac Amgueddfa Cymru.

### **Amcan:**

Sicrhau bod pawb yn gallu dod o hyd i derm yn hawdd, a bod ganddynt hyder mai'r term hwnnw yw'r un cywir iddyn nhw.

### **Sut:**

- Sefydlu uned newydd (gweler maes 6 isod) i gydlynu'r gwaith terminoleg (a geiriadura) sy'n digwydd ar hyn o bryd, er mwyn ceisio osgoi dyblygu a helpu i weithio tuag at gysondeb. Byddai'r uned hefyd yn gyfrifol am greu rhaglenni gwaith er mwyn cynllunio'r blaenoriaethau ar gyfer safoni fesul blwyddyn.
- Un nod hirdymor fydd galluogi defnyddwyr i chwilio drwy brif gronfeydd terminoleg y Gymraeg (h.y. y Porth Termau a BydTermCymru) mewn un lle, ar un wefan hawdd i'w defnyddio (gweler maes 5 isod). Byddai hyn yn golygu nad oes yn rhaid i ddefnyddwyr chwilio nifer o ffynonellau ar y we am dermau, ac y byddai ganddynt hyder bod y term a gyflwynir yn un cymeradwy, safonedig.
- Gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn gwybod yn union pa adnodd sy'n addas at eu dibenion nhw e.e. os ydyn nhw'n ddisgybl ysgol, yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, neu'n siaradwr newydd. Bydd hyn yn galw am ymchwil defnyddwyr er mwyn gwybod pwy yw'r gwahanol gynulleidfaoedd ac ym mha gyd-destun maen nhw'n debygol o chwilio am derm.
- Gwneud yn siŵr bod gwasanaeth ar gael i helpu pobl pan fyddant yn ei chael yn anodd dod o hyd i derm neu benderfynu ar derm addas os oes sawl dewis. Un ateb posib fyddai sefydlu gwasanaeth ymholiadau i ddarparu atebion brys i gwestiynau am derminoleg sy'n flaenoriaeth, a gallai staff y gwasanaeth ymgynghori â rhwydwaith o arbenigwyr pwnc ac aelodau Panel Safoni'r Gymraeg (gweler maes 4 isod) yn ôl y gofyn.
- Fel rhan o'r broses o ledaenu termau, ac er mwyn gwella ein dealltwriaeth o ba fath o dermau y mae pobl yn debygol o gydio ynddynt a'u defnyddio'n rheolaidd, monitro a gwerthuso i ba raddau y mae termau'n cael eu derbyn, gan ddysgu a bwydo'r canfyddiadau i mewn i'r broses wrth gamu ymlaen.
- Er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod ble i droi er mwyn cael atebion terminolegol, bydd yn hollbwysig marchnata'r ddarpariaeth yn effeithiol, codi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael, a chynnig cyngor am y manau gorau i ddod o hyd i atebion, gan ddibynnu pwy yw'r defnyddiwr.
- Cynyddu nifer y terminolegwyr proffesiynol drwy gyfuniad o hyfforddiant, marchnata'r cyfleoedd sydd ar gael yn y maes, a phrentisiaethau.

### **Amcanion:**

**O ran llenwi bylchau yng ngeirfa gyffredinol yr iaith, o ganlyniad i dermau sy'n codi'n ddirybudd a lle mae angen datrysiaid brys** – sefydlu trefn gyflymach i greu termau newydd mewn ffordd sy'n ymateb i ddigwyddiadau wrth iddyn nhw godi.

Rhaid bod statws i'r termau brys hyn, a'u bod yn cael eu rhannu'n rhagweithiol fel bod cymaint o sefydliadau ac asiantaethau â phosib yn eu cydnabod ac yn eu defnyddio. Bydd hyn o bosib yn golygu cynnwys cynrychiolwyr strategol o wahanol fannau i gytuno ar derm sydd ei angen ar frys. O gael y prif randdeiliaid, gan gynnwys aelodau'r wasg, i gytuno ar derm ar y cychwyn cyntaf, mae'n dilyn y bydd rhagor o ddefnydd ar y term y cytunir arno.

**O ran safoni pecynnau o dermau technegol y gellir rhagweld y bydd eu hangen yn y dyfodol agos** (e.e. am fod polisi dan ddatblygiad, neu am fod cyflogwr mawr am agor gweithle newydd a bod angen termau i ddiwallu'r angen mewn sector penodol) – mae angen rhaglenni gwaith blynyddol i gydlynu'r gwaith pwysig hwnnw.

Yn y ddau achos uchod, cynigiwn fod termau a safonir, o ba bynnag ffynhonnell, yn cael eu darparu drwy wefan ganolog.

Bydd hyn oll yn golygu cydlynu'r ddarpariaeth yn well er mwyn sicrhau nad oes dyblygu ymdrechion yn digwydd, gan leihau dryswch i'r defnyddwyr a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith (er ein bod yn derbyn bod angen gwahanol dermau mewn gwahanol gyd-destunau weithiau e.e. mewn deddfwriaeth neu ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol).

#### **Sut:**

- Sefydlu uned (gweler maes 6 isod) i adnabod termau sydd angen eu safoni ar frys, ac i sganio'r gorwel am dermau y bydd eu hangen yn y dyfodol agos.
- O ran termau sydd eu hangen ar frys, sefydlu proses i gytuno pa derm i'w ddefnyddio, fel bod statws i'r term a chysondeb yn y defnydd ohono. Fel rhan o hyn, byddai angen cytuno ar ddull o safoni termau brys gan ddilyn y prosesau cydnabyddedig, ac o ddsbarthu'r term i'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod angen ei ddefnyddio heb oedi.
- O ran termau nad oes cymaint o frys yn eu cylch, archwilio pa ddulliau fyddai orau ar gyfer safoni pecynnau terminoleg e.e. cynnull grŵp o arbenigwyr yn rheolaidd, neu holi i ganolfan neu sefydliad penodol arwain ar y gwaith.
- Sicrhau bod y termau y cytunir arnynt nid yn unig yn cael eu cynnwys ar y rhyngwyneb canolog (gweler maes 5 isod), ond hefyd yn cael eu lledaenu a'u cynnwys yn yr holl gronfeydd terminoleg priodol, fel bod unrhyw un sy'n chwilio am y term Cymraeg yn gwybod mai dyma'r term cywir.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i dermau newydd a safonir fel bod defnyddwyr yn ymwybodol ohonynt.

## Maes datblygu 3: Corpora

Gall 'corpws' (lluosog: corpora) olygu sawl peth. Ond yr hyn sydd gennym dan sylw yn y ddogfen hon yw cronfa o ddata ieithyddol wedi ei chasglu gan ddilyn egwyddorion penodol, sy'n cael ei defnyddio er mwyn cynnal ymchwil ieithyddol ac i greu adnoddau. Gall corpws fel hyn fod yn seiliedig ar destun neu recordiadau iaith lafar, neu gyfuniad o'r ddau.

Mae gwaith ieithyddol o bob math yn cael ei wneud ar sail corpws – er enghraifft, gall corpws ddarparu tystiolaeth i bobl sy'n creu geiriadur, cronfa derminoleg neu adnodd technoleg iaith. Mae sut mae'r data sydd yn y corpws yn cael ei gasglu yn dibynnu ar beth rydyn ni eisiau ei gael allan ohono e.e. bydd angen corpora sain â thrawsgrifiadau er mwyn hyfforddi systemau lleferydd a deallusrwydd artiffisial (*artificial intelligence*) Cymraeg.

Rydyn ni hefyd yn gallu eu defnyddio er mwyn ymchwilio i sut i ddatblygu adnoddau ar gyfer gwahanol fathau o siaradwyr Cymraeg. Mae hynny'n cynnwys siaradwyr newydd a phlant ysgol (am y gallan nhw ddangos sut mae geiriau neu ymadroddion penodol yn cael eu defnyddio mewn brawddeg, a pha mor aml), yn ogystal â chyhoeddwyr, geiriadurwyr, ymchwilwyr a'r cyfryngau.

Yn hynny o beth, mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod amrywiaeth o gorpora safonol wedi'u tagio ar gael i bawb eu defnyddio – boed yn unigolion neu'n gwmnïau technoleg. Os ydym hefyd yn gallu sicrhau eu bod ar gael drwy drwydded agored, bydd hynny'n golygu bod data strwythuredig ar gael i ddatblygwyr gwahanol adnoddau eu defnyddio e.e. i hyfforddi systemau ieithyddol, lleferydd neu ddeallusrwydd artiffisial newydd. Dyma fydd ein pwyslais wrth gamu tua'r dyfodol, er mwyn sicrhau bod adnoddau, yn arbennig y rheini sydd wedi eu datblygu gan ddefnyddio arian cyhoeddus, ar gael er budd pawb.

Fel y mae hyn yn ei awgrymu, mae corpora'n hynod bwysig hefyd er mwyn creu a chynnal seilwaith digidol i'r iaith. Nod ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg<sup>1</sup> yw i dechnoleg gefnogi'r iaith, er mwyn iddi gael ei defnyddio mewn cynifer o sefyllfaoedd â phosibl. Rydyn ni'n ymwybodol bod technoleg yn datblygu'n gyflym, ac rydyn ni'n awyddus i'r Gymraeg symud gyda'r dechnoleg. Bydd ein hymdrechion gyda'r polisi seilwaith ieithyddol newydd hwn yn golygu, er enghraifft, bod corpora'n cael eu datblygu (gan gynnwys y rheini sy'n gefn i eiriaduron a therminolegau), a fydd yn darparu rhagor o ddata strwythuredig i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Technoleg a chyfoethogi profiad y rheini sy'n defnyddio technoleg yn Gymraeg. Mae angen sicrhau bod gennym setiau data enfawr a chorpora Cymraeg perthnasol er mwyn datblygu gallu lleferydd-i-destun, systemau cyfieithu newydd, a dysgu peiranyddol. Er mwyn gwneud hynny, mae angen sicrhau bod ymchwil a datblygiad academaidd ym maes technoleg iaith yn cael eu cefnogi dros y tymor hir. Mae angen cynnal a chadw'r seilwaith hwn a'i ddiweddarau i genedlaethau'r dyfodol.

### Pa adnoddau sydd ar gael?

Weithiau bydd corpora'n cael eu cynllunio er mwyn diwallu anghenion penodol, ac weithiau byddant yn cael eu creu fel sgil-gynnyrch gweithgareddau eraill (e.e. cynhyrchu geiriaduron neu gronfeydd termau). Mae nifer o gorpora Cymraeg neu ddwyieithog yn bodoli, yn ffrwyth gwahanol brosiectau ymchwil ar hyd y blynyddoedd. Yn wir, mae unrhyw gasgliad mawr o eiriau, termau neu ymadroddion wedi eu tagio yn gorpws. Y tu ôl i unrhyw eiriadur neu

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-technoleg-cymraeg-a-chyfryngau-digidol.pdf>

gronfa derminoleg, fe fydd yna gorpws, ond nid yw'r rhain bob amser ar gael i bawb eu defnyddio oherwydd cyfyngiadau eiddo deallusol.

Mae'r prif adnoddau corpws sydd ar gael i ddefnyddwyr y Gymraeg wedi eu nodi isod (nid yw pob un o reidrydd ar gael i'w lawrlwytho drwy drwydded agored).

### ***Y Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes (CorCenCC)*** ([corcencc.cymru](http://corcencc.cymru))

Mae CorCenCC yn brosiect sy'n cynnwys Prifysgolion Caerdydd, Abertawe, Caerhirfryn a Bangor. Mae'n cynnwys samplau o Gymraeg gyfoes sy'n digwydd yn naturiol mewn bywyd go iawn ar ffurf data llafar, ysgrifenedig ac electronig (e.e. y Gymraeg sy'n cael ei defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol), a gyflwynir ar ffurf corpws testun ar-lein y gallwch ei chwilio. Mae pecyn offer addysgu a dysgu ar-lein yn gysylltiedig ag ef, sy'n tynnu ar ddata'r corpws er mwyn cynnig adnoddau ar gyfer dysgu Cymraeg i bobl o bob oedran a phob gallu.

### ***Porth Corpora Cenedlaethol Cymru*** ([corpws.cymru/](http://corpws.cymru/))

Casgliad o gorpora ysgrifenedig Cymraeg a dwyieithog ar-lein a gynhelir gan Uned Termau a Thechnolegau Iaith Prifysgol Bangor. Mae'n darparu rhyngwyneb sy'n gallu chwilio am eiriau, termau neu ymadroddion, ac fe'u dangosir yn ôl cyd-destun eu defnydd. Hefyd, os oes cyfieithiad o'r testun ar gael, mae'n gallu dangos hwnnw ochr yn ochr â'r gwreiddiol. Mae'r rhyngwyneb yn cynnwys meddalwedd o'r enw *lemateiddiwr*, sy'n gallu dod o hyd i unrhyw ffurf ar air Cymraeg (os yw wedi ei dreiglo, er enghraifft, neu'n dangos y ffurf luosog). Mae'r Porth Corpora hefyd yn cynnig dolenni at gorpora eraill a all fod o ddiddordeb i ymchwilyr. Cafodd rhai o'r rhain eu datblygu gan Brifysgol Bangor, a rhai gan sefydliadau eraill.

### **Amcanion:**

Sicrhau bod adnoddau corpws helaeth a safonol wedi'u tagio ar gael i bawb eu defnyddio drwy drwydded agored. Mae'n bosib y bydd hyn yn digwydd yn organig fel sgil-gynnyrch gweithgareddau sydd eisoes yn digwydd, ond bydd cydlynu'r maes a thrafod gyda'r prif ddarparwyr yn fodd o sicrhau bod corpora priodol ar gael ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd o ran y Gymraeg.

Er mwyn cefnogi siaradwyr newydd, sicrhau bod corpws o ffurfiau a chamgymeriadau cyffredin ar gael at ddefnydd sefydliadau fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i lywio eu dysgu.

Cadw llygad ar fylchau sy'n codi yn y math o gorpws sy'n bodoli, gan gomisiynu, datblygu a churadu yn ôl yr angen. Am fod casglu a chreu data fel rheol yn cymryd amser, mae angen sicrhau bod y gweithgareddau hyn, ac ymdrechion i brosesu, cyfoethogi, anodi (*annotate*) a labelu'r data wedi eu ffocysu.

Ar wefan ganolog, creu a chynnal dolenni awdurdodol at gorpora, gan gynnwys: lecsiconau, brawddegau Cymraeg/Saesneg wedi eu gwirio a'u halinio, enwau lleoedd a strydoedd, rhestrau o endidau enwol, corpora sain wedi eu trawsgrifio, ac ati, er mwyn caniatáu i brosiectau geiriaduron a chronfeydd terminoleg barhau i ddatblygu ar sail tystiolaeth.

**Sut:**

- Rhoi'r dasg i'r uned newydd (a ddisgrifir yn adran 6 isod) oruchwylio'r maes a sicrhau bod corpora addas ar gael i'w defnyddio at amrywiol bwrpasau, gan hwyluso lle bo angen.
- Archwilio sut i ddiogelu corpora sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft drwy gynnig cyfleuster i gadw fersiynau wrth gefn ohonynt, fel bod llai o berygl i'r hyn sydd wedi ei ddatblygu gyda chyllid cyhoeddus gael ei golli.
- Cynnal dolenni at adnoddau corpws ar yr un rhyngwyneb (gw. adran 5 isod) er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r corpora sy'n addas ar eu cyfer.
- Cynnal gweithgareddau i helpu i ddatblygu'r corpora sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft drwy wneud yn siŵr bod dogfennau cyhoeddus ar gael i ehangu'r adnoddau hyn.
- Cynnal gweithgareddau cyfoethogi corpora drwy gydlynu'r berthynas rhwng gwahanol ddarparwyr cyhoeddus a sicrhau nad oes cyfleoedd yn cael eu colli i wneud hynny.
- Cyhoeddi canllawiau ar sut i ddefnyddio'r gwahanol gorpora at wahanol bwrpasau.

## Maes datblygu 4: Safoni

Mae sawl math gwahanol o waith safoni yn digwydd ar gyfer y Gymraeg, ond yn y bôn maen nhw i gyd yn anelu at yr un peth, sef cysondeb yn y modd y caiff y Gymraeg ei defnyddio, gan sicrhau bod rheolau'n bodoli lle bo'u hangen.

Mae'r gwahanol fathau o safoni yn cynnwys:

- safoni'r orgraff (h.y. sut mae geiriau'n cael eu sillafu)
- safoni gramadeg (e.e. a yw geiriau'n rhai gwrywaidd neu fenywaidd, pa ffurfiau lluosog ddylai fod arnynt, ac ati), ac arddull
- safoni enwau lleoedd (Comisiynydd y Gymraeg sy'n arwain ar y maes hwn)
- safoni termau (rydyn ni'n ymdrin â safoni termau o dan adran 2 uchod).

### Safoni'r orgraff

*Byrger neu byrger? Cydbwyllgor neu Cyd-bwyllgor? Microffon neu meicroffon? P'un sy'n iawn?*

Ar hyn o bryd, mae'r ffordd y mae nifer o eiriau Cymraeg yn cael eu sillafu yn gallu amrywio, ac mae hyn yn arwain at anghysondeb rhwng gwahanol ffynonellau, ac ansicrwydd i'r defnyddiwr. Mae gwneud yn siŵr bod orgraff y Gymraeg (y ffordd y mae geiriau Cymraeg yn cael eu sillafu) yn cael ei safoni'n barhaus yn bwysig os ydym am weld rhagor o gysondeb, er enghraifft rhwng geiriaduron a chronfeydd terminoleg, a chynyddu hyder pobl sydd am ddefnyddio'r iaith. Ac mae'n hanfodol os ydym am greu gwefan ganolog i fod yn ddrws ffrynt, fel sy'n cael ei disgrifio ym maes 5 isod.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydyn ni wedi sefydlu Panel Safoni'r Gymraeg. Mae'r Panel yn cynnwys academyddion, terminolegwyr, geiriadurwyr, cyfieithwyr ac ieithyddion a fydd yn safoni orgraff y Gymraeg ac yn ei moderneiddio.

Bydd gan y Panel Safoni rôl allweddol yn sicrhau bod darparwyr seilwaith (y rheini sy'n cynnal geiriaduron a rhestrau terminoleg er enghraifft) yn cydnabod penderfyniadau'r Panel o safbwynt orgraff.

### Safoni gramadeg ac arddull

Ar ôl ymgymryd i ddechrau â'r gwaith brys o safoni materion orgraffyddol, sy'n flaenoriaeth, bydd Panel Safoni'r Gymraeg yn ystyried y camau nesaf, a allai gynnwys safoni gramadeg neu arddull. Gallai hyn arwain at ddarparu cyngor a chanllawiau ehangach ar ddefnyddio'r iaith, gan roi eglurder i unrhyw un sydd am ddefnyddio'r Gymraeg.

Gydag amser, gallai'r gwaith safoni hwn arwain at ddatblygu canllawiau ieithyddol safonol hawdd i'w defnyddio a fyddai ar gael ar-lein. Gallai hyn olygu cynnwys canllawiau, cyngor ac atebion ar bethau fel rhedeg berfau, treigladau, defnydd priodol o gywair mewn rhai cyd-destunau, ac ati, ar wefan ganolog (gweler maes 5 isod). Byddai modd i'r uned (sy'n cael ei gynnig ym maes 6 isod) ddatblygu'r agwedd hon ar y gwaith wrth fynd yn ei blaen yn y tymor hir.

## Safoni enwau lleoedd

Comisiynydd y Gymraeg sy'n arwain ar safoni enwau lleoedd, ac mae'n gwneud hynny drwy gynnal y Panel Safoni Enwau Lleoedd, sy'n canolbwyntio ar safoni sut mae enwau pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru yn cael eu sillafu.

Mae'r Panel yn cynnwys arbenigwyr ar enwau lleoedd ac orgraff y Gymraeg, ac yn dilyn canllawiau penodol er mwyn argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd. Rhan o'r gwaith yw cynnal Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, sy'n adnodd ar-lein y gallwch chwilio drwyddo neu ei lawrlwytho (oherwydd materion technegol, nid yw'r Rhestr ar gael ar-lein ar hyn o bryd; os oes gan aelodau o'r cyhoedd ymholiadau penodol am enwau lleoedd, gallant gysylltu â swyddfa'r Comisiynydd i drafod).

Rydyn ni'n cydnabod bod safoni enwau lleoedd yn wahanol i'r mathau eraill o safoni yn y papur hwn, a hynny o ran proses a statws. Mae enwau lleoedd wedi'u cynnwys yma am eu bod yn rhan o'r maes safoni ehangach. Ond gwelwn y byddai'r gwaith rydyn ni'n ei gynnig o ran orgraff, gramadeg ac arddull, ar y cyd â'r gwaith ar enwau lleoedd, yn codi statws y maes yn gyffredinol. Yn ogystal â hynny, law yn llaw â Chomisiynydd y Gymraeg, mae'n gwneud synnwyr y byddai gan yr uned a grybwyllir yn Adran 6 isod rôl yn pwysleisio statws enwau lleoedd sydd wedi eu safoni, ac yn codi ymwybyddiaeth bellach o'r rhestr.

### Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae diffyg corff awdurdodol i arwain ar safoni gwahanol agweddau ar y Gymraeg yn fwch sydd wedi'i gydnabod ers blynyddoedd. Yn hynny o beth, does neb yn arwain y gwaith hwn hyn o bryd. Byddai parhau â gwaith Panel Safoni'r Gymraeg i ddatrys materion orgraffyddol (yn ogystal â, maes o law, materion ieithyddol eraill) yn gwneud llawer i greu profiad cyson i'r defnyddiwr ac yn ei gwneud yn haws iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai hefyd yn fodd o gychwyn ar y daith i ddarparu cymaint o adnoddau â phosib ar un gwefan (gw. adran 5 isod).

Mae BydTermCymru Llywodraeth Cymru yn cynnwys arddulliadur<sup>2</sup> defnyddiol sydd â'r nod o helpu i sicrhau cysondeb ar draws holl waith cyfieithu y Llywodraeth – er y gall y cyngor fod o fudd, hefyd, i gyfieithwyr eraill ac i unrhyw un sy'n drafftio testunau Cymraeg. Mae'r arddulliadur hwn yn seiliedig ar gyngor a geir yn *Gramadeg y Gymraeg* (1996) Peter Wynn Thomas, *Orgraff yr Iaith Gymraeg* (1987), a *Geiriadur Prifysgol Cymru*.

### Amcanion:

Codi statws, a chydlynu lle bo angen, y gwahanol fathau o safoni sy'n digwydd yng Nghymru.

Sicrhau bod Panel Safoni'r Gymraeg yn ateb y galw am lais awdurdodol ar faterion orgraff y Gymraeg.

Bod amrywiaethau orgraffyddol rhwng adnoddau seilwaith yn cael eu cysoni dros amser wrth i ddarparwyr ddilyn penderfyniadau Panel Safoni'r Gymraeg.

Sicrhau bod canllawiau arddull cydnabyddedig, modern ar gael i holl ddefnyddwyr y Gymraeg.

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/bydtermcymru/style-guide>



**Sut:**

- Galluogi'r uned seilwaith ieithyddol newydd (a ddisgrifir yn adran 6 isod) i gydlynu a goruchwyllo anghenion o ran safoni, yn ôl yr hyn sy'n briodol.
- Cefnogi Panel Safoni'r Gymraeg i barhau i ymgymryd â materion ieithyddol e.e. orgraff.
- Sicrhau bod aelodaeth y panel yn cynnwys amrywiaeth o arbenigwyr a all ddatrys materion sy'n peri dryswch.
- Sicrhau bod y penderfyniadau'n cael eu hadlewyrchu a'u prif-ffrydio drwy brif eiriaduron a geiriaduron terminolegol y Gymraeg.

## **Maes datblygu 5: Creu un rhyngwyneb – sicrhau chwilio hawdd ar draws pob adnodd**

### **Beth ydyn ni'n ceisio'i ddatrys?**

Fe welwch uchod mai un o'r prif faterion rydyn ni'n ceisio'i ddatrys yw bod cymaint o adnoddau ar wasgar ar y we, boed y rheini'n eiriaduron, yn rhestrau o dermau, neu'n adnoddau corpws. Nid oes modd i'r defnyddiwr cyffredin wybod beth yw statws y ffynonellau, na pha un sy'n fwyaf tebygol o gynnig yr ateb safonol. Gall hefyd olygu nad yw nifer fawr o bobl yn gallu dod o hyd i adnoddau, neu'n gwybod am eu bodolaeth o gwbl – mae hyn yn gallu bod yn beth negyddol o safbwynt y defnyddiwr a'r adnodd ill dau.

### **Beth ydyn ni'n gynnig?**

P'un a ydyn ni'n sôn am ddod o hyd i air neu derm, mae'n amlwg y byddai gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth mewn un man yn gwneud pethau'n haws i unrhyw un sy'n ceisio dod o hyd i atebion mewn perthynas â'r Gymraeg.

Felly rydyn ni'n cynnig creu un rhyngwyneb neu wefan i fod yn borth, neu ddrws ffrynt, ar gyfer popeth sy'n gysylltiedig â seilwaith ieithyddol y Gymraeg. Fe allai'r wefan hon ganiatáu i chi chwilio'n hawdd mewn sawl geiriadur a chronfa dermau ar-lein ar yr un pryd, a hynny gan ddefnyddio amrywiaeth o declynnau, o gynorthwywyr personol digidol i ffonau symudol a gliniaduron.

Byddai pob geiriadur a chronfa dermau y byddai eu canlyniadau ar gael drwy'r wefan yn parhau'n brosiectau annibynnol gyda'u gwefannau eu hunain, dim ond bod ffrwyth eu gwaith hefyd ar gael drwy chwilio ar y wefan. Byddai hyn yn golygu nad oes yn rhaid i unrhyw un fynd o un wefan i'r llall i chwilio am ateb. Gydag amser byddem yn anelu at ddarparu adnoddau hefyd drwy apiau i'w defnyddio ar ffonau symudol a dyfeisiau llechen.

Mae'n bosibl mai'r camau cyntaf fyddai ymgymryd â'r gwaith cychwynnol sy'n angenrheidiol i safoni'r orgraff, ac ystyried sut orau i dagio geiriau a themau o wahanol brosiectau mewn ffordd sy'n caniatáu chwilio amdany'n nhw drwy'r rhyngwyneb canolog. O wneud hynny, hoffem gyrraedd sefyllfa lle gallech nodi pa fath o ddefnyddiwr ydych chi (e.e. rhywun sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, cyfieithydd proffesiynol, disgybl ysgol, rhiant - boed yn gallu siarad Cymraeg ai peidio, athro, myfyriwr prifysgol, ac ati), neu pa faes yr hoffech chwilio ynddo, a bod y canlyniadau'n cael eu trefnu yn ôl pa mor berthnasol ydyn nhw i chi. Byddai hyn yn caniatáu i chi fod yn hyderus eich bod wedi dod o hyd i'r ateb cywir.

Bydd y gwaith hwn yn cymryd amser wrth gwrs, felly ar y cychwyn byddem am i'r wefan gynnig cyngor o ran pa ffynhonnell sydd fwyaf addas ar gyfer gwahanol ofynion, a chyfeirio pobl i'r manau priodol. Yn y pen draw, ein nod yw y bydd modd chwilio, gweld a chymharu canlyniadau o nifer o adnoddau ar yr un pryd.

### **Mwy na gwefan chwilio**

Ond byddai'r wefan ganolog hon yn fwy na phorth ar gyfer chwilio am air neu derm yn unig. Gallai hefyd fod yn fan cychwyn ar gyfer pob math o weithgarwch mewn perthynas â seilwaith ieithyddol y Gymraeg.

Ar ôl ei sefydlu, gallem ddatblygu agweddau eraill ar y wefan er mwyn helpu siaradwyr Cymraeg o bob math. Er enghraifft, drwy dynnu sylw pobl at y ffaith bod modd chwilio am

air neu derm mewn ffordd sy'n gallu adnabod geiriau wedi eu treiglo, neu sy'n dangos sut mae geiriau yn treiglo neu'n cael eu rhedeg mewn ffyrdd eraill. Byddai cynnwys canllawiau ieithyddol, fel a grybwyllir yn adran 4 uchod, hefyd yn ategu hyn. Byddai adnoddau tebyg i'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol i siaradwyr newydd a'r rheini sy'n defnyddio'r iaith bob dydd wrth eu gwaith.

Gallai'r wefan hefyd gadw cofnod o'r termau a'r geiriau y byddwch yn chwilio amdany'n nhw, a defnyddio'r cofnod hwnnw i weld pa fylchau sydd yn y ddarpariaeth, gan helpu i flaenoriaethu pa waith safoni terminoleg sy'n digwydd yn y dyfodol. Ffordd arall o wneud hynny fyddai cynnwys ffurflen ar y wefan, y gallai unigolion neu sefydliadau ei defnyddio i wneud cais am derm neu air penodol uchel ei broffil, os nad yw eisoes wedi ei gynnwys. Byddai modd i swyddogion yr uned arfaethedig (gweler maes 6 isod) asesu'r cais a'i gyfeirio, os yw'n deilwng, at sylw panel arbenigwyr i'w ystyried a'i safoni.

Byddai'r rhyngwyneb hefyd yn fan delfrydol i gyhoeddi penderfyniadau Panel Safoni'r Gymraeg, mewn perthynas ag orgraff, gramadeg ac arddull, y sonnir amdanynt ym maes 4 uchod.

Yn achos corpora, peth hawdd fyddai i'r wefan gynnal dolenni at yr holl adnoddau corpws priodol ar yr un rhyngwyneb, neu hyd yn oed gynnal ambell i gorpws petai hynny'n ddymunol, er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r corpora sy'n addas ar eu cyfer. Y nod fyddai rhannu gwahanol adnoddau corpws er mwyn i bobl allu datblygu adnoddau newydd. Yn hynny o beth byddai'n arfer da, ac yn sicrhau gwerth da am arian cyhoeddus, gweithio tuag at sefyllfa lle bo modd lawrlwytho fersiwn ddiweddaraf adnoddau o'r wefan dan drwydded agored. Yn wir, rydyn ni'n cynnig bod yr egwyddor o ddarparu adnoddau ar drwydded agored yn berthnasol i gymaint o'r adnoddau a grybwyllir yn y ddogfen hon â phosib.

### **Pa adnoddau sydd ar gael?**

Ar hyn o bryd, yr agosaf sydd gennym at ddarparu pob adnodd ar gyfer y Gymraeg ar un wefan yw gwefan Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor (<http://techiaith.bangor.ac.uk/>) sy'n cynnig mynediad at Eiriadur Bangor, Porth Termau a Phorth Corpora. Mae'n gasgliad helaeth a chwiliadwy o adnoddau terminoleg ar draws nifer o feysydd. Nid yw'n cynnwys y prif adnodd terminoleg arall ar gyfer y Gymraeg, sef BydTermCymru, nac yn galluogi chwilio pob geiriadur ar-lein blaenllaw, e.e. Geiriadur Prifysgol Cymru.

Un enghraifft lai hysbys sy'n gweithredu fel ffenest i nifer fawr o adnoddau yw'r Porth Geiriaduron Ewropeaidd ([www.dictionarportal.eu/cy/ctlg/?objlang=cy](http://www.dictionarportal.eu/cy/ctlg/?objlang=cy)), sy'n cael ei guradu gan arbenigwyr o'r *European Network of e-Lexicography*. Mae'n cynnig modd i chwilio nifer o ffynonellau mewn un man, ond yn hytrach na darparu'r holl ganlyniadau ochr yn ochr, rhaid mynd i bob gwefan unigol i weld y canlyniad. Nid yw ychwaith yn cynnig arweiniad i ddefnyddwyr ynghylch pa adnodd allai fod fwyaf priodol iddyn nhw.

### **Amcanion:**

Sefydlu un rhyngwyneb lle gellir chwilio ym mhrif eiriaduron a chronfeydd termau'r Gymraeg.

Datblygu'r rhyngwyneb i fod yn ganolfan ar gyfer pob math o waith sy'n gysylltiedig â seilwaith y Gymraeg.

**Sut:**

- Penodi technegwyr iaith (fel rhan o greu'r uned a ddisgrifir yn adran 6 isod) i fod yn gyfrifol am dynnu'r wefan ynghyd a'i rheoli o ddydd i ddydd.
- Dod i gytundeb gyda gwahanol brosiectau er mwyn gallu cynnwys canlyniadau chwilio eu cronfeydd drwy'r rhyngwyneb canolog, yn ogystal ag ar eu gwefannau hwy.
- Cymryd camau cychwynnol er mwyn paratoi'r ffordd, gan gynnwys cysoni sillafiadau geiriau, cysoni'r ffordd y mae gwahanol eiriau a thermâu'n cael eu tagio, fel eu bod yn ymddangos yn yr un chwiliadau.
- Sefydlu trefn ar gyfer derbyn ac ymateb i ymholiadau sy'n dod i law drwy'r wefan.
- Sefydlu cyswllt rhwng yr ymholiadau a ddaw i law drwy'r wefan, a thueddiadau chwilio, â'r dulliau safoni termau a amlinellir yn adran 4 uchod.
- Archwilio pa bosibiliadau eraill sydd i'r wefan o safbwynt gwaith corpws, safoni, rhannu arferion, olrhain sut mae termau a geiriau'n cael eu defnyddio, ac ati.

## **Maes datblygu 6: Creu uned newydd i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg**

### **Beth ydyn ni'n ceisio'i ddatrys?**

Wrth ddisgrifio'r gwahanol adnoddau uchod, mae'n amlwg bod gwaith proffesiynol o safon uchel iawn yn cael ei wneud ar draws pob un. Yr hyn a welwn ni hefyd yw bod yna fylchau y gellid eu llenwi drwy gynnal trosolwg mwy parhaol o'r maes, er mwyn cydlynu'n well yr hyn sydd eisoes yn bodoli.

Mae sôn wedi bod ers blynyddoedd, degawdau hyd yn oed, am yr angen i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. Mae nifer o arbenigwyr yn y maes hefyd wedi cytuno â'r angen hwn.

Mewn gwledydd eraill sydd ag ieithoedd mewn sefyllfaoedd tebyg i'r Gymraeg, mae llywodraethau ac asiantaethau llywodraethol yn cymryd rhan flaenllaw wrth gynllunio a chydlynu geiriaduron, cronfeydd terminoleg a chorpora, ac yn helpu i safoni'r iaith.

Gwelwn ei bod yn briodol, felly, gynnig sefydlu uned ganolog i gydlynu geiriaduron, terminoleg, gwaith corpws, gwaith safoni, a chreu un rhyngwyneb i dynnu ynghyd yr holl waith hwn. Gallai'r uned hefyd weithio'n agos gyda phob math o randdeiliaid mewn meysydd fel cyfieithu a thechnoleg gwybodaeth.

### **Beth ydyn ni'n gynnig?**

Er mwyn cynnal trosolwg o'r maes, a helpu i'w gynllunio'n strategol, rydyn ni'n cynnig creu uned i gydlynu'r gwahanol agweddau ar waith seilwaith ieithyddol y Gymraeg, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn ei gwneud yn haws i'r defnyddiwr ddod o hyd i atebion. Byddai uned o'r fath yn estyn bri i'r maes, gan ddyrchafu statws geiriau a themau yng Nghymru, fel bod rhagor o gysondeb o ran defnydd ar draws amrywiol gyrff a chyfryngau. Byddai hyn yn ei dro yn helpu pobl ddefnyddio'u Cymraeg yn amlach ac mewn mwy o sefyllfaoedd. Rydyn ni'n cynnig y byddai'r uned yn ymhél â'r gweithgareddau a ddisgrifir ym meysydd datblygu 1-5 yn y ddogfen hon:

**Rydyn ni'n cynnig sefydlu'r uned hon yn Llywodraeth Cymru.** Y fantais o wneud hyn yw y byddai'n gallu elwa ar gynllunio holistaidd, gan glymu i mewn gyda meysydd polisi eraill o ran y Gymraeg, er enghraifft *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg* y Llywodraeth, sy'n ategu'r hyn sydd yn y ddogfen hon. Byddai hefyd yn golygu bod yr uned mewn sefyllfa dda i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn gwahanol feysydd polisi (e.e. addysg, iechyd, yr economi) er mwyn sganio'r gorwel o safbwynt anghenion terminoleg.

Ar lefel ymarferol, byddai ei lleoli yn y Llywodraeth yn golygu y byddai'r costau a'r gorbenion sy'n gysylltiedig â sefydlu uned o'r fath yn is na phetaem yn ei sefydlu y tu allan i Lywodraeth Cymru. Ar adeg pan fo gofynion mawr ar gyllid ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus, byddai sicrhau bod y buddsoddiad yn mynd ar y cynnyrch ac ar staff arbenigol, yn hytrach nag ar orbenion, gwasanaethau Adnoddau Dynol a swyddfeydd, yn gwneud llawer o synnwyr.

### **Strwythur yr uned arfaethedig**

Er mwyn sicrhau bod yr uned mewn sefyllfa dda i ymateb i ddatblygiadau polisi, sganio'r gorwel am anghenion terminoleg ac ymateb i ymholiadau o natur ieithyddol, bydd yn

hollbwysig ei staffio gan weithwyr proffesiynol, rhai â chefnidir ym maes seilwaith ieithyddol. Gallai hyn wedyn ganiatáu iddynt, er enghraifft:

- Cydlynu rhaglen waith strategol ar gyfer geiriaduron, safoni termau, cynllunio gwaith corpws, a safoni'r orgraff.
- Adnabod yr angen am dermau brys, mewn ymateb i ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol, a meithrin perthynas ag arbenigwyr perthnasol ac asiantaethau'r wasg er mwyn sicrhau bod y termau newydd hyn yn cael eu defnyddio'n eang ac yn gyson o'r cychwyn cyntaf.
- Sganio'r gorwel er mwyn gweld pa dermau unigol a pheccynnau o dermau y bydd eu hangen yn y dyfodol agos, gan gynllunio rhaglen waith yr uned a chydlynu prosiectau seilwaith cysylltiedig yn unol â hynny (ni fyddai'r uned yn gyfrifol am y gwaith ei hun, dim ond am ei gydlynu – byddai safoni termau, er enghraifft, yn parhau i gael ei arwain gan arbenigwyr yn y canolfannau perthnasol).
- Delio ag ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd a sefydliadau.
- Cynnull a darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer gwaith Panel Safoni'r Gymraeg, a gwneud yn siŵr bod penderfyniadau'r panel hwn yn cael eu prif-ffrydio yn y geiriaduron a'r cronfeydd termau perthnasol.
- Gweithredu'r polisi seilwaith ieithyddol a monitro cynnydd yn y maes.
- Cynnal rhwydwaith genedlaethol o eiriadurwyr, terminolegwyr ac ieithyddion eraill.
- Datblygu elfen addysgol a chenhadol i'r uned, gan sicrhau bod modd iddo drafod, adnabod anghenion, dod o hyd i ddatrysiadau, a'u cyfathrebu'n eang.

Byddai swyddogaeth farchnata yn bwysig i'r uned er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa darged yn ymwybodol o'r adnoddau, yn deall eu diben ac yn eu defnyddio. Po fwyaf o statws sydd gan yr uned a'i gwaith, a po fwyaf yr ymwybyddiaeth ohoni, y gobaith yw y bydd hynny'n arwain at ragor o gysondeb yn y defnydd o eiriau a therminoleg yn ehangach, gan gynyddu eu defnydd.

Gan mai un o'i nodau fyddai datblygu gwytnwch hirdymor seilwaith ieithyddol y Gymraeg, byddwn hefyd yn ceisio manteisio ar gynlluniau prentisiaeth i sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu trwytho yn y maes.

Er y byddai'r uned wedi ei lleoli yn Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n cynnig y dylai fod ganddi ei hunaniaeth a'i brand ei hun, fel ei bod yn weledol ac yn hygyrch i'r cyhoedd.

## **Cyllid**

Nid yw'n fwriad gan y Llywodraeth leihau'r symiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu dosbarthu ar gyfer gwahanol brosiectau seilwaith ieithyddol. Byddai unrhyw gyllid a ddarperir er mwyn creu'r uned arfaethedig, ac i ddatblygu'r maes yn fwy cyffredinol (e.e. cynnal panel safoni, datblygu'r cynnig o ran geiriaduron, creu gwefan) yn gyllid newydd ar gyfer y maes.

## **Pa adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd?**

Ar hyn o bryd, does yna'r un corff na thîm yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth seilwaith ieithyddol yn ei chyfanrwydd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer nifer o brosiectau gwahanol, ond nid oes unrhyw gydlynu ffurfiol ac mae'r prosiectau unigol yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd.

## **Amcanion:**

Creu uned gyda staff arbenigol i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg, a darparu arweiniad strategol fel bod y gwahanol gydrannau'n gweithio'n well gyda'i gilydd.

Byddai'r uned yn gyfrifol am y gweithgareddau a'r amcanion a nodir ym meysydd datblygu 1-5 y ddogfen hon.

## **Sut:**

- Creu uned yn Llywodraeth Cymru, gan ddechrau gyda phenodi Pennaeth ac un uwch-swyddog i gychwyn ar y gwaith.
- Sicrhau bod yr uned yn cynnwys staff sydd ag arbenigedd ym maes seilwaith ieithyddol y Gymraeg e.e. geiriaduron, terminoleg, safoni, creu corpws.
- Creu hunaniaeth gref a sicrhau bod yr uned a'r adnoddau sy'n gysylltiedig â hi yn cael eu marchnata'n effeithiol.
- Meithrin perthynas gyda'r prif randdeiliaid.
- Cynyddu gallu ac arbenigedd yn y maes drwy brentisiaethau a mentrau i godi ymwybyddiaeth o'r maes fel llwybr gyrfa.
- Dechrau ar y pecynnau gwaith o dan y meysydd datblygu a ddisgrifir yn adrannau 1-5 uchod.

## Adran 4 – Diwedd glo

Does dim amheuaeth bod gwir angen gwella'r ffordd y mae seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn gweithio. Mae dyhead wedi bod ers degawdau a mwy i roi trefn ar y maes. Diben ein cynigion yn y ddogfen hon yw cydlynu gwahanol elfennau seilwaith ieithyddol, comisiynu adnoddau megis terminoleg yn ôl y galw, a sicrhau bod ffrwyth y gwaith ar gael yn rhwydd i bawb ac yn cael ei farchnata'n effeithiol. Rydyn ni'n ffyddiog y bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bawb ddefnyddio'r iaith yn hyderus, boed yn siaradwyr newydd, yn rhieni plant ysgol neu'n bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol yn y gwaith.

Heb os, bydd angen cyllid ychwanegol i gyflogi staff ac ymgymryd â gweithgareddau newydd. Diben yr ymgynghoriad hwn yw holi'ch barn chi, er mwyn ein helpu i bwysu a mesur beth yn union fydd hyd a lled y drefn newydd, a'r union gyfrifoldebau y byddwn am iddo ymgymryd â nhw.

Rhaid pwysleisio nad ydym ar gychwyn y daith. Ers degawdau, rydyn ni wedi cydnabod bod yna berthynas rhwng gwahanol elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r cydrannau eisoes yn bodoli – yr hyn rydyn ni'n ei wneud yma yw meddwl am ffyrdd o'u cydlynu a'u darparu mewn ffordd resymegol ac effeithiol, gan ychwanegu'r elfen ragweithiol o sganio'r gorwel a chynllunio strategol.

Mae ar ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn angen trefn symlach, fel bod pawb yn gallu dod o hyd i atebion rhwydd, eglur i'w cwestiynau am y Gymraeg. Fel mae'n sefyll, mae defnyddio geiriaduron a chronfeydd terminoleg yn gallu bod yn broses ddryslyd iawn, gan alw am fod â nifer o wahanol adnoddau ar agor ar yr un pryd er mwyn cael gafael ar ateb. Ond mae angen sicrhau bod yr adnoddau hyn yn hawdd i'w defnyddio i bawb, nid dim ond cyfieithwyr proffesiynol. Byddai cydlynu'n well yn helpu pawb i wybod ble i droi am gymorth, fel ein bod ni i gyd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn ddirwysr.